Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

# RHEOLWR CYFRANNU UNIGOL
# DISGRIFIAD SWYDD

**Lleoliad: Gwaith hybrid, gyda chyfleusterau swyddfa ar gael ym Mangor a ger yr Wyddgrug**

**Yn atebol i: Pennaeth Strategaeth a Gweithrediadau**

## PWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD

Cyfrifoldeb cyffredinol am godi arian cysylltiedig ag incwm anghyfyngedig i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru gan unigolion yn ôl yr angen fel sail i'n Strategaeth 2030 sefydliadol: Dod â Natur yn Ôl

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

### Goruchwyliaeth strategol a rheoli cyllideb

- Gweithio gyda'r Pennaeth Strategaeth a Gweithrediadau i weithredu amcanion penodol o strategaeth codi arian bresennol Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Datblygu achosion sefydliadol ar gyfer cefnogaeth i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a chreu ymgyrchoedd llwyddiannus o'i chwmpas
- Dyfeisio a rheoli pob agwedd ar gyllidebau unigol yn ymwneud â chyfrannu Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, gan gynnwys ail-ragweld a chynllunio wrth gefn, rhagolygon incwm a gwariant, a thracio perfformiad ariannol
- Arwain ar gyfathrebu ac addysg, yn fewnol ac yn allanol, ar bwysigrwydd codi arian gan unigolion ar gyfer y sefydliad
- Siarad ar ran Ymddiriedolaethau Natur Gogledd Cymru mewn digwyddiadau / cyflwyniadau yn ôl yr angen
- Gweithio'n agos gydag aelodau eraill o staff i sicrhau bod cynhyrchion a mentrau sy'n ymwneud â chyfrannu unigol wedi'u cysylltu'n agos â meysydd eraill yr elusen.

### Rheolaeth llinell y tîm codi arian

- Rheolaeth llinell ar gyfer aelodau penodol o dîm codi arian Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n gyfrifol am aelodaeth, cymynroddion a rhoddwyr mawr
- Arwain, rheoli ac ysbrydoli holl staff Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i greu diwylliant cadarnhaol ac arloesol, a diwylliant o 'allu gwneud', yn gysylltiedig â chyfrannu gan unigolion, gan annog gwaith traws-dîm a thraws-sefydliad.

### Cyfrifoldebau codi arian penodol

- Datblygu a gweithredu holl weithgareddau Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru sy'n ymwneud ag apeliadau codi arian untro, uwchraddio aelodaeth a rhoddion cyffredinol
- Meithrin a rheoli perthnasoedd buddiol a chynhyrchiol ag asiantaethau codi arian a marchnata trydydd parti yn ôl yr angen i gyflawni'r uchod

- Datblygu fframwaith datblygu cyfranwyr ar gyfer Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn ei chyfanrwydd; sicrhau bod siwrneiau effeithiol, sy'n canolbwyntio ar gyfranwyr, yn eu lle drwy fanteisio i'r eithaf ar botensial meddalwedd Rheoli Perthnasoedd â Chwsmeriaid ac adnoddau eraill
- Gweithredu fel y 'meddwl arweiniol' sy'n goruchwylio cynllun aelodaeth Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a'i rôl o fewn fframwaith datblygu cyfranwyr ehangach
- Sicrhau bod gofal arfer gorau yn ei le i gefnogwyr ar gyfer rheoli'r ymateb i holl weithgareddau codi arian Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru sy'n ymwneud ag unigolion.

**Dyletswyddau eraill**

- Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau codi arian yn y sector elusennol, yn enwedig drwy ddefnyddio rhwydweithiau cydweithwyr, cyrff masnach a'r wasg
- Cysylltu â thîm Marchnata a Chyfathrebu Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i sicrhau bod yr holl gyfathrebu sy'n ymwneud â chefnogwyr yn gyson â chanllawiau brand a negeseuon
- Cysylltu â thimau codi arian mewn Ymddiriedolaethau Natur eraill i helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer traws-weithio lle bo hynny'n berthnasol
- Cefnogi Swyddog Data Cefnogwyr Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio ag arfer da bob amser.

Er mwyn i'r sefydliad weithio'n effeithiol efallai y bydd gofyn i chi gynorthwyo gyda meysydd gwaith eraill. Dylech felly fod yn barod i ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd, ac unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n ofynnol.

**Mae'r holl staff yn llysgenhadon i'r sefydliad yn fewnol ac yn allanol a disgwylir iddynt ymddwyn yn broffesiynol bob amser. Mae'n ofynnol iddynt gadw at reolau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol fel y nodir yn y llawlyfr staff, mabwysiadu arferion gwaith amgylcheddol gyfeillgar, gosod a chynnal safonau personol uchel o effeithlonrwydd a gofal cwsmeriaid a meithrin diwylliant o 'allu gwneud' yn seiliedig ar berchnogaeth, blaengaredd, gwaith tîm a chyfnewid gwybodaeth.**

**RHEOLWR CYFRANNU UNIGOL**
**MANYLEB Y PERSON**

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Rhinweddau Personol** | | |
| Aelod da o dîm | ✓ | |
| Mynd ati i herio'r status quo i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau, gan chwilio am arfer da | ✓ | |
| Da am ddatrys problemau | ✓ | |
| Ymrwymiad i gadwraeth natur, gwaith ac amcanion mudiad yr Ymddiriedolaethau Natur a'r rôl rydym yn ei chwarae wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol i fyd natur | ✓ | |
| **Cymwyseddau allweddol** | | |
| Deall arian | ✓ | |
| Ffocws ar ganlyniadau | ✓ | |
| Hyderus wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys meithrin perthynas gyflym ag eraill a datrys materion cymhleth yn effeithiol ac yn effeithlon | ✓ | |
| Hunangyfarwyddo; dangos uchelgais a blaengaredd yn gyson | ✓ | |
| Y gallu i amsugno gwybodaeth gymhleth yn gyflym, a'i chyfleu i eraill mewn ffordd gryno a diddorol | ✓ | |
| Gallu clir i arwain, cymell a chyfarwyddo tîm at ganlyniadau llwyddiannus | ✓ | |
| Y gallu i adnabod a gwireddu cyfleoedd busnes newydd, gan gynnwys paratoi dogfennau achos busnes | ✓ | |
| Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd proffil uchel gyda'r cyhoedd | ✓ | |
| Deall TG yn llawn, gan gynnwys pecynnau meddalwedd arbenigol perthnasol yn ddelfrydol | ✓ | |
| Yn dangos meddwl strategol ac yn ystyried nodau hirdymor ac effaith penderfyniadau ar y sefydliad ehangach | ✓ | |
| **Profiad o …** | | |
| Gweithio am 3 i 5 mlynedd yn y sector elusennol | | ✓ |
| Rheoli timau codi arian amlddisgyblaethol | ✓ | |
| Creu cynhyrchion, prosiectau a / neu apeliadau codi arian newydd | ✓ | |
| Gweithio mewn sefydliad gyda niferoedd uchel o wirfoddolwyr a chreu cynhyrchion i wella codi arian gwirfoddol lleol | | ✓ |
| Cyflawni targedau ariannol ac anariannol a chefnogi aelodau eich tîm i wneud yr un peth | ✓ | |
| Gweithio gydag asiantaethau a phartneriaid allanol ac adrodd yn ôl iddynt | | ✓ |
| Datblygu a rheoli perthnasoedd cyfrannu | ✓ | |
| Paratoi achosion ar lefel sefydliad a phrosiect ar gyfer cefnogaeth | ✓ | |
| Datblygu cytundebau nawdd, gan gynnwys cyflwyno cynigion, contractau a darparu buddion | | ✓ |
| **Gwybodaeth a sgiliau** | | |
| Gradd / Gradd Meistr mewn pwnc perthnasol | | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| Cymhwyster academaidd proffesiynol neu achrededig mewn maes perthnasol | | ✓ |
| Aelodaeth o gyrff proffesiynol priodol | | ✓ |
| Gwybodaeth weithredol dda am y sector amgylcheddol yng Nghymru yn gyffredinol | ✓ | |
| Gwybodaeth weithredol dda am ddeddfwriaeth / rheoliadau sy'n berthnasol i'r rôl, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag arferion codi arian a diogelu data | ✓ | |
| Trwydded yrru lawn yn y DU | ✓ | |
| Y gallu i siarad, darllen, deall ac ysgrifennu yn y Gymraeg | | ✓ |